Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
–
Equality and Social Justice Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
–
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

4 Awst 2022

Annwyl Jane,

Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr argyfwng costau byw

Mae'r cynnydd a welir mewn costau byw yn debygol o ddominyddu trafodaethau cyhoeddus yn yr hydref, wrth inni agosáu at aeaf anodd iawn. Er ein bod yn cydnabod y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i geisio lleddfu'r pwysau hyn, mae'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i'r cyhoedd mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y cymorth hwn yn gyfyngedig. Er mwyn i ni allu deall graddfa ac effeithiolrwydd y cymorth hwn yn well, a monitro'r sefyllfa wrth symud ymlaen, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn.

Y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf

- A fyddai modd i chi nodi'r gyfradd hawlio ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, gan gynnwys faint o aelwydydd oedd yn gymwys i gael cymorth, a faint o aelwydydd a gafodd gymorth ym mhob awdurdod lleol?
- A fyddai modd i chi hefyd nodi cyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol o dan y cynllun?
- Pa ddata y mae Llywodraeth Cymru wedi'u casglu ar gymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, a'r niferoedd sy'n manteisio arno, yn ôl eu statws economaidd-gymdeithasol neu eu nodweddion gwarchodedig? A fyddai modd i chi rannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor?

Y Cynllun Cymorth Costau Byw

- A fyddai modd i chi nodi faint o aelwydydd o fewn pob awdurdod lleol sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Costau Byw, a faint o aelwydydd sydd wedi cael taliad drwy'r cynllun hyd yma?
- A fyddai modd i chi ddarparu'r ffigurau terfynol i'r Pwyllgor ynghylch y niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun, a chyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol, pan fydd data terfynol ar gyfer y Cynllun ar gael wedi iddo gau ar 30 Medi?
- Pa ddata, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu ynghylch cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Costau Byw, neu'r niferoedd sy'n manteisio arno, yn ôl eu statws

economaidd-gymdeithasol neu eu nodweddion gwarchodedig? A fyddai modd i chi ddarparu i'r Pwyllgor unrhyw wybodaeth sydd ar gael unwaith y daw'r cynllun i ben?

- Unwaith y bydd y data ar gael, a fyddai modd i chi ddarparu manylion ynghylch faint o aelwydydd ym mhob awdurdod lleol a gafodd gymorth drwy elfen ddewisol y Cynllun Cymorth Costau Byw, a chyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol drwy'r elfen hon o'r cynllun?

Y Gronfa Cymorth Dewisol – Taliadau Cymorth mewn Argyfwng

- Yn ôl awdurdod lleol, faint o geisiadau a wnaed am Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ystod 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?
- A fyddai modd i chi nodi faint o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)? A fyddai modd i chi nodi nifer y cartrefi sydd wedi cael 2, 3, 4 neu 5 o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng ym mhob blwyddyn?
- A fyddai modd i chi ddarparu cyfanswm gwerth y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?

Y Gronfa Cymorth Dewisol – cymorth i aelwydydd oddi ar y grid ar gyfer costau tanwydd

- Fesul awdurdod lleol, faint o geisiadau a wnaed i'r Gronfa Cymorth Dewisol am gymorth ar gyfer costau tanwydd oddi ar y grid yn 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?
- Yn ystod 2020, 2021 a 2022, faint o daliadau a wnaed i aelwydydd drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol ym mhob awdurdod lleol i'w helpu gyda chostau tanwydd oddi ar y grid? A fyddai modd i chi nodi nifer yr aelwydydd sydd wedi cael 2, 3, 4 neu 5 taliad yn gysylltiedig â thanwydd oddi ar y grid ym mhob blwyddyn?
- A fyddai modd i chi nodi cyfanswm gwerth y taliadau a wnaed drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer costau tanwydd oddi ar y grid gan bob awdurdod lleol yn 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Byddwn yn ddiolchgar pe gallwn gael ymateb gennych o fewn yr amserlen arferol.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru